## 2. Gwybodaeth am yr ysgol

**Staffio 2016-2017**

Meithrin Mari Williams (A) Kim Rees (CDD)

Derbyn Sara Sweeney (A) Angharad Beer (CDD)

Bl 1 a 2 Catrin Devonald(A) Janet Jones (CDD)

Bl 3 a 4 Catrin Evans(A) Lucy Gallivan (CDD)

Bl 5 a 6 Nia McGuffie (A) Catrin A Evans (A)

SENCo Nia McGuffie

Athrawes CPA Catrin A Evans a Mari Williams

Clerc ysgol Ruth Morgan

**Ymgynghorydd Her y Consortiwm : Mrs Meinir Howells**

Niferoedd disgyblion —Medi 2016

Meithrin 16

Derbyn 27

Bl 1 13

Bl 2 12

Bl 3 11

Bl 4 12

Bl 5 13

Bl 6 8

Dyddiadau Tymor 2017—2018

| Tymor | Cychwyn | Hanner Tymor | | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| **Tymor yr Hydref** | Dydd Iau 4 Medi 2017 | Dydd Llun 30 Hydref 2017 | Dydd Gwener 3 Tachwedd 2017 | Dydd Gwener 22 Rhagfyr 2017 |
| **Tymor y Gwanwyn** | Dydd Llun 8 Ionawr 2018 | Dydd Llun 19 Chwefror 2018 | Dydd Gwener 23 Chwefror 2018 | Dydd Iau 29 Mawrth 2017 |
| **Tymor yr Haf** | Dydd Llun Ebrill 16 2018 | Dydd Llun 28 Mai 2018 | Dydd Gwener 1 Mehefin 2018 | Dydd Gwener 24 Gorffennaf 2017 |

**Gŵyl y Banc mis Mai: Dydd Llun 7 Mai 2018**

Diwrnod Roald Dahl
Fe wnaethom ddathlu bywyd Roald Dahl a daeth y plant i'r ysgol yn gwisgo i fyny fel cymeriadau o'i lyfrau a bu'r plant yn mwynhau gwneud amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y diwrnod.

Diwrnod T.Llew Jones
I ddathlu gwaith un o awduron enwocaf Cymru cafodd y disgyblion gyfle i wisgo i fyny fel cymeriadau o'i lyfrau, yn ogystal â dysgu am ei fywyd, ei gerddi a'i straeon.

Diwrnod Masnach Deg
Yn ystod ein diwrnod Masnach Deg dysgodd y disgyblion am bwysigrwydd prynu nwyddau Masnach Deg a sut mae nwyddau Masnach Deg yn cael eu cynhyrchu. Gwnaethpwyd nifer o weithgareddau gwahanol yn y dosbarthiadau i ddysgu am sut mae prynu nwyddau Masnach Deg yn fuddiol i les a dinasyddiaeth byd eang.

Diwrnod E-Ddiogelwch
Cynhaliwyd diwrnod E-Ddiogelwch eleni gyda'r plant ar y 7fed o Chwefror a cafodd y disgyblion g yfleoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau amrywiol. Roedd y Dewiniaid Digidol wedi gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion a'r athrawon a'u hyfforddi am wahanol agweddau o'r pwnc.

Ymweliadau ac Ymwelwyr
Trefnwyd ymweliadau addysgiadol i ddisgyblion a bu'r Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Sain Ffagan ac aeth y Dosbarth Derbyn I'r Amgueddfa.
Aeth Bl 5/6 i ymweld â Chastell Caerdydd i ddysgu am yr Ail Ryfel Byd ac aeth Bl 3/4 I weithdy Artes Muyndi yn yr Amgueddfa.ac I Gastell Caerdydd am gyflwyniad hebogyddiaeth.
Treuliodd disgyblion Blwyddyn 6 wythnos yng nghwersyll yr Urdd Llangrannog yn cymdeithasu gyda disgyblion eraill o ysgolion cynradd clwstwr Bro Edern. Yn ogystal aeth Blwyddyn 6 i ganolfan Boulders i ddysgu am ddiogelwch personol gyda'r Crucial Crew.

Daeth amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion; roedd rhain yn cynnwys Adam Coleman a gyflwynodd gwasanaethau i'r disgyblion, y llyfrgellydd lleol Mrs Newton i drafod Cynllun Darllen yr haf ac i ddosbarthu tystysgrifau. , Mr Kevin Davies (Gwasanaeth Diolchgarwch), Banc Bwyd Caerdydd i drafod eu gwaith yn y gymuned. Daeth Sioned Jacks o Lyfrgell Caerdydd i weithio gyda Bl 3/4 a cynhaliodd yr RNLI wasanaeth ar ddiogelwch y traeth i ddisgyblion CA2.Yn ystod yr ymweliadau hyn cafodd y disgyblion gyfleoedd i ofyn a.c ateb amrywiaeth o gwestiynau ac fe'u haddysgwyd am y byd o'u cwmpas.

Fe wnaeth disgyblion Blwyddyn 3 a 4 weithio gyda'r RSPB yn gwneud cyfrif adar yng nghyffiniau'r ysgol a mwynhau sesiwn fuddiol gan y Gwasanaeth Ambiwlans wrth iddynt addysgu'r plant am eu gwaith yn y gymuned.
Roedd y disgyblion hefyd wedi elwa o ymwelwyr eraill i'r ysgol eleni, er enghraifft, gwyliodd y Cyfnod Sylfaen sioe Fflic a Fflac a disgyblion CA2 yn mwynhau sioe Hedd Wyn. Roedd Gwion Jones o Urdd Gobaith Cymru wedi cynnal rhai gwersi yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ac wedi cydweithio gyda Clwb Urdd yr ysgol i gynnal. gemau a gweithgareddau hwylus i'r plant.. Gweithiodd Miss Rhian Shannon yn wythnosol gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn dysgu Almaeneg iddynt er mwyn eu paratoi i Fro Edern.
Yn ogystal aeth Blwyddyn 6 am ychydig o ddiwrnodau i Ysgol Bro Edern fel rhan o'u gwaith pontio er mwyn eu paratoi at ddechrau'r ysgol yn Medi 2017.

## 5. Gweithgareddau amrywiol

Clybiau'r ysgol

Yng Nghlwb yr Urdd cafodd y disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, crefft, cerddoriaeth a gemau.Yn yr ysgol mae'r plant yn gallu dewis o nifer o glybiau amrywiol megis clwb darllen, clwb coginio, clwb creadigol, clwb Technoleg Gwybodaeth a chlwb yr Urdd. Diolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled.

### Clwb Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru

Dechreuodd clwb brecwast am ddim yn yr ysgol yn mis Medi 2015. Pwrpas y clwb brecwast yw cynnig brecwast i ddisgyblion ni fyddai fel arall yn derbyn brecwast cyn ysgol.

### Gweithgareddau elusennol

Gwisgodd y disgyblion smotiau a streipiau i'r ysgol ar gyfer Diwrnod Plant mewn Angen a chodwyd £117.85

### Ffrindiau

Llwyddodd y Ffrindiau unwaith eto i gynnal Ffair Nadolig llwyddiannus iawn a chodwyd cyfanswm syfrdanol o £678.99 Trefnwyd llawer o ddigwyddiadau eraill gan y Ffrindiau yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion a rhieni gan gynnwys Ffair Nadolig a Haf £599.28 a parti Calan Gaeaf £126.46Y cyfanwm terfynol yn 2016-2017 oedd £2105.18. Mae'r arian sy'n cael ei godi yn mynd tuag at archebu cysgod ar gyfer iard yr ysgol.

### Ysgol Bro Edern

Rydym fel ysgol wedi datblygu cysylltiadau cryf iawn gydag Ysgol Bro Edern ac wedi bod yn rhan o nifer o grwpiau gweithio gyda staff yr ysgol yn ogystal ag ysgolion eraill y clwstwr. Roedd diwrnod hyfforddiant ar gyfer ysgolion clwstwr Bro Edern wedi ei chynnal yn ystod y flwyddyn ar Cwricwlwm newydd Donaldson. Fe wnaethom groesawu disgyblion o Ysgol Bro Edern sy'n cwblhau cwrs BAC Cymru i weithio gyda disgyblion mewn datblygu sgiliau Addysg Gorfforol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi treulio 4 diwrnod yn Ysgol Bro Edern fel rhan o'r gwaith pontio i ysgol Uwchradd.

### Gweithgareddau Chwaraeon

Yn ystod amseroedd cinio mae'r staff yn annog y disgyblion i chwarae gemau sydd yn gwella eu hiaith lafar yn ogystal â'u sgiliau personol a chymdeithasol, Roedd diwrnod mabolgampau yn llwyddiant mawr eleni gyda'r disgyblion i gyd yn arddangos eu sgiliau athletau a da iawn i Lys Celyn ar eu buddugoliaeth.Mae'r ysgol wedi bod yn ymgymryd â'r siales o redeg neu cerdded milltir bob dydd ac mae hyn yn hybu ein ymrwymiad i fod yn ysgol iach..

### Cysylltiadau gyda rhieni

Roedd pob dosbarth wedi cynnal gwasanaeth i rieni ar ddiwedd tymor yr Haf. Unwaith eto bu'r plant yn diddanu rhieni a'u teuluoedd yn ein cyngerdd Nadolig blynyddol.Cynhaliwyd nosweithiau cwricwlwm i rieni a oedd yn cynnwys hybu sgiliau Llythrennedd a Rhigfedd yn y CS.Hefyd cynhaliwyd cyfarfod yn trafod y gwersi Addysg Rhyw bydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol.

Cafwyd cyfarfodydd trosglwyddo gwybdoaeth i rieni Blwyddyn 6 am Llangrannog ac i rieni newydd y Derbyn a Meithrin.

Rydym yn hyderus bod yna gysylltiadau agos rhwng yr ysgol a'u teuluoedd yn ystod nosweithiau agored, adroddiadau blynyddol, diwrnodau agored a chylchlythyr tymhorol.Year 6 show

### Blwyddyn 6

Ffarweliwyd gyda disgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn dechrau yn Ysgol Bro Edern yn mis Medi 2017 a gorffennwyd eu cyfnod yn yr ysgol ar nodyn campus wrth iddynt berfformio sioe i'r ysgol gyfan "Charlie a'I ffatri siolced" a pharti tê ffarwel a drefnwyd gan y rhieni a'r Ffrindiau. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr ysgol Uwchradd.

## Adroddiad Cymharol yr Ysgol: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

### Sgôr safonedig ar sail oedran

Mae sgoriau safonedig ar sail oedran yn eich galluogi i gymharu pob disgybl ag eraill yng Nghymru o'r un oedran (mewn blynyddoedd a misoedd) a gymerodd yr un profion ym mis Ebrill a Mai 2017. At ddibenion cymharu mae'r tablau a'r siartiau isod yn crynhoi'r sgoriau safonedig ar sail oedran ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn eich ysgol, yn eich awdurdod lleol ac yng Nghymru.

### Canran y disgyblion o fewn pob ystod sgoriau:

| | | Darllen Saesneg | | | Darllen Cymraeg | | | Rhifedd Gweithdrefnol | | | Rhifedd Rhesymu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ysgol | ALl | Cymru | Ysgol | ALl | Cymru | Ysgol | ALl | Cymru | Ysgol | ALl | Cymru |
| **BCC** | | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 | 2017 |
| | <85 | - | 14 | 16 | 9 | 12 | 14 | 9 | 14 | 16 | 9 | 16 | 15 |
| **2** | Rhwng 85 a 115 | - | 68 | 68 | 64 | 68 | 70 | 55 | 67 | 68 | 64 | 66 | 68 |
| | >115 | - | 18 | 16 | 27 | 20 | 16 | 36 | 19 | 16 | 27 | 18 | 17 |
| | <85 | - | 16 | 16 | 9 | 12 | 15 | 0 | 16 | 16 | 0 | 15 | 15 |
| **3** | Rhwng 85 a 115 | - | 65 | 66 | 82 | 62 | 68 | 82 | 66 | 68 | 91 | 69 | 68 |
| | >115 | - | 19 | 18 | 9 | 26 | 17 | 18 | 19 | 16 | 9 | 17 | 17 |
| | <85 | 0 | 15 | 16 | 17 | 11 | 15 | 17 | 17 | 16 | 0 | 17 | 16 |
| **4** | Rhwng 85 a 115 | 75 | 65 | 67 | 75 | 65 | 69 | 58 | 64 | 68 | 75 | 66 | 68 |
| | >115 | 25 | 20 | 17 | 8 | 24 | 16 | 25 | 20 | 16 | 25 | 17 | 16 |
| | <85 | 9 | 15 | 16 | 18 | 11 | 15 | 9 | 16 | 15 | 9 | 15 | 14 |
| **5** | Rhwng 85 a 115 | 73 | 63 | 67 | 64 | 64 | 67 | 91 | 65 | 68 | 91 | 68 | 69 |
| | >115 | 18 | 21 | 17 | 18 | 25 | 17 | 0 | 19 | 16 | 0 | 17 | 17 |
| | <85 | 0 | 16 | 16 | 13 | 11 | 14 | 0 | 16 | 16 | 13 | 16 | 15 |
| **6** | Rhwng 85 a 115 | 100 | 65 | 68 | 88 | 62 | 69 | 88 | 65 | 68 | 63 | 65 | 68 |
| | >115 | 0 | 19 | 17 | 0 | 28 | 17 | 13 | 20 | 16 | 25 | 20 | 17 |

### Canran y disgyblion a gafodd sgôr o 85 ac uwch:

## Ysgol Pen Y Groes
## Adroddiad Ariannol i Rieni 2016/2017

| Manylion | £<br>Cyllideb<br>2016/17 | £<br>Gwirioneddol<br>2016/17 |
|---|---|---|
| **Treuliau Gweithwyr** | | |
| Staff Addysgu | 331,717 | 336,872 |
| Staff Cynnal | 100,177 | 91,945 |
| | 21,724 | 40,591 |
| **Treuliau Eiddo** | | |
| Atgyweiriadau a Chynnal-a-Chadw | 8,121 | 2,886 |
| Costau Ynni | 7,000 | 16,851 |
| Costau Dŵr | 2,200 | 2,624 |
| Contract Glanhau | 20,886 | 18,915 |
| **Treuliau Cyflenwadau a Gwasanaethau** | | |
| Dodrefn | 2,055 | 878 |
| Deunyddiau Addysgu | 11,500 | 11,372 |
| Gemau a Gweithgareddau Ysgol | 2,700 | 1,964 |
| Prydau Ysgol ar gyfer Staff Dyletswydd | 2,000 | 1,043 |
| Treuliau Swyddfa | 4,400 | 7,389 |
| Treuliau Teithio a Chynhaliaeth | 50 | 265 |
| Treuliau Llywodraethwyr | 950 | 978 |
| Prydau Ysgol | 3,860 | 3,860 |
| Unedau Gwasanaeth | 32,112 | 29,251 |
| **Gwariant Gros** | **551,452** | **567,684** |
| Incwm | | |
| Defnydd / Llogi Cymunedol | -2,000 | -6,817 |
| Grantiau/Incwm Arall/Derbynebau | -41,074 | -44,166 |
| **Incwm Gros** | **-43,074** | **-50,983** |
| Heb ei ddyrannu | 51,307 | |
| Gweddill a ddygwyd ymlaen | | 42,984 |
| **Gwariant Net a Reolir gan yr Ysgol** | **559,685** | **559,685** |
| Cyfraddau | 0 | 0 |
| CYFANSWM GWARIANT NET | 559,685 | 559,685 |

| Gweddill ar 31.3.2017 | | |
|---|---|---|
| Gweddill na Fuddosddwyd | 42,984 | |
| Gweddill a Fuddsoddwyd | 0 | |
| Cyfanswm Gweddill ar 31.3.2017 | 42984 | |